# JONES, DAVID JAMES (1886 - 1947), athro athroniaeth

**Enw:** David James Jones
**Dyddiad geni:** 1886
**Dyddiad marw:** 1947
**Priod:** Margaretta Jones (née Roderick)
**Rhiant:** Jane Jones
**Rhiant:** William Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** athro athroniaeth
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Richard Ithamar Aaron

Ganwyd 22 Rhagfyr 1886 yn y Pandy, Pontarddulais, mab William a Jane Jones. Cafodd ei addysg yn ysgol ganolraddol Treg  yr, coleg y Brifysgol yng Nghaerdydd, a choleg Emmanuel, Caergrawnt; graddiodd yn B.A. (Cymru) gydag anrhydedd yn y dosbarth cyntaf mewn Hebraeg ac athroniaeth, a daeth yn gymrawd o Brifysgol Cymru; cymerodd radd M.A. yn 1912. Ordeiniwyd ef, 1915, yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, bu'n gaplan gyda'r fyddin yn Ffrainc yn ystod rhyfel 1914-18, a bu'n weinidog yn Bryn-mawr ac Abertawe. Yn 1928 dewiswyd ef yn diwtor mewn athroniaeth a seicoleg yng ngholeg Harlech; 10 mlynedd yn ddiweddarach etholwyd ef yn athro athroniaeth yng ngholeg Prifysgol Cymru ym Mangor. Priododd 1917, Margaretta Roderick, Gwynfe, Sir Gaerfyrddin.

At y gwres a oedd yn nodweddiadol o'i bregethu fe ychwanegwyd yn ddiweddarach, yn rhinwedd ei ymladd hir yn erbyn afiechyd, ddoethineb aeddfed, llonyddwch, urddas, a thynerwch - y cwbl hyn yn ei wneuthur yn athro nodedig. Yn ei athroniaeth ceisiai gael safbwynt y gwyddonydd i gydfynd â safbwynt y Cristion. Ysgrifen nodd erthygl i *Harlech Studies*, 1938, o dan y teitl ' Nodiadau ar y Method Gwyddonol '; y mae erthyglau ganddo hefyd yn *Y Traethodydd* a'r *Efrydiau Athronyddol*. Cyhoeddodd yn 1939, *Hanes Athroniaeth: Y Cyfnod Groegaidd*, gwaith sydd yn astudiaeth dreiddiol o leddwl y Groegiaid. Bu farw 23 Gorffennaf 1947 a chladdwyd ef ym Mangor.

## Awdur

**Yr Athro Richard Ithamar Aaron**, (1901 - 1987)

## Ffynonellau


Marw-gofion yn *Efrydiau Athronyddol*, 1947,

a'r *Y Goleuad*, 13 Awst 1947


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: David James Jones

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5235575


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu